

FFEDERASIWN CLYBIAU FFERMWYR IFANC CYMRU



CYFARFOD Y CYNGOR
DYDD IAU 26 TACHWEDD, 2020
'ZOOM'
6.30YH

COFNODION

CADEIRYDD: Miss Katie Davies

IS-GADEIRYDD: Miss Caryl Haf

PRESENNOL: Katie Davies (Cadeirydd y Cyngor); Caryl Haf (Is-gadeirydd y Cyngor); Clare James (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Materion Gwledig); Aled Thomas (Is-gadeirydd yr Is-bwyllgor Digwyddiadau a Marchnata); Katie Court (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Cystadlaethau); Kathryn Jones (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Cyllid a Rheoli); Elin Rattray (Cadeirydd y Fforwm Ieuenctid); Niall Evans (Cadeirydd yr Is-bwyllgor Rhyngwladol); Sian Healy, Carwyn Rees (Brycheiniog); Katie Matthews (Gwent); Samuel Kurtz, Tania Hancock (Sir Benfro); Manon Williams (Meirionnydd); Aled Rees, Bryony Wilson, Sioned Morris (Maldwyn); Hefin Evans, Iestyn Owen, Carys Thomas (Sir Gâr); Eyllt Ellis Jones, Bleddyn Davies, Sioned Davies (Ceredigion); Rhys Richards, Fflur Powell Roberts, Eiliw Griffiths (Ynys Môn); Meinir Owen, Gwen Thomas, Beca Glyn (Eryri); Kate Thomas, Elen Williams (Morgannwg); Gwenno Davies (Clwyd); John James (Maesyfed); Dewi Parry, Iwan Lloyd Williams, Kate Miles, Rhodri Evans, Jayne Jones, Hedd Pugh a Dafydd Jones (Aelodau Cyfetholedig).

HEFYD YN BRESENNOL: Nia Lloyd (Cyfarwyddwr CFFI Cymru); Sian Thomas (Swyddog Gweithrediadau CFFI Cymru); Teleri Thomas (Swyddog Marchnata a Chyfathrebu CFFI Cymru); Catrin James (Swyddog Datblygu'r Gymraeg CFFI Cymru); Claire Powell (Rheolwraig Cyllid a Gweinyddu CFFI Cymru); Ed Dungait (FfCCFFI); Eleri Evans (Trefnydd Ffederasiwn Eryri) a Hefin Jones (Cyfieithydd).

C/13/2021

CROESO A CHYFLWYNIADAU

Wrth agor y cyfarfod, fe wnaeth Katie Davies groesawu'r holl aelodau i gyfarfod rhithwir cyntaf y Cyngor ers i bandemig Covid-19 atal gweithgareddau ym Mawrth 2020. Cyflwynwyd Hefin Jones, y cyfieithydd swyddogol, i aelodau'r Cyngor, a phrofwyd y gwasanaeth cyfieithu. Hysbyswyd aelodau'r Cyngor y byddai'r cyfarfod yn cael ei recordio at ddibenion cadw cofnodion. Anogwyd unrhyw aelod oedd yn dymuno codi cwestiwn i wneud hynny trwy gyfrwng y blwch sgwrsio, neu godi eu llaw a throi eu microffon ymlaen i rannu eu sylwadau.

At ddibenion pleidleisio, cyhoeddwyd y byddai Vevox yn cael ei ddefnyddio unwaith eto. Gofynnwyd i unrhyw un a oedd yn cael trafferth defnyddio'r system i anfon neges at CFFI Cymru. Byddai'r holl bleidleisiau yn cael eu cadarnhau gan dîm staff CFFI Cymru.

Hysbyswyd yr aelodau fod dyddiaduron yn cynnwys manylion cyfarfodydd a fynychir gan yr uwch swyddogion a'r tîm staff ar gael i'w weld ar dudalen y Cyngor ar wefan CFFI Cymru.

Hysbyswyd y Cyngor y cynhaliwyd cyfarfod i drafod maniffesto CFFI Cymru, cyn etholiadau 2021, a hwyluswyd y cyfarfod gan Laura Elliott. Anogwyd yr aelodau oedd â diddordeb mewn bod yn rhan o'r gwaith i ymuno â'r gweithgor.

Byddai calendr CFFI Cymru ar gael i'w brynu yr wythnos ddilynol, ac anogwyd yr aelodau i'w hyrwyddo mor eang ag y bo modd. Atgoffwyd pawb y byddai 50% o elw pob calendr y byddid yn ei werthu yn cael ei gyfrannu at y ffederasiwn sirol o ddewis y prynwr.

Hysbyswyd yr aelodau fod y sefydliad wedi gofyn am gyfarfodydd gyda chynrychiolwr Llywodraeth Cymru, ac ychwanegwyd fod cyfarfod wedi cael ei gynnal gydag Andrew R T Davies. Roedd CFFI Cymru yn parhau i ymgysylltu'n rhagweithiol â Llywodraeth Cymru. Roedd cais wedi cael ei anfon am gymorth o Gronfa Adfer Diwylliannol Cymru, ond nid oedd y sefydliad wedi derbyn unrhyw ymateb ar y pryd.

Yn olaf, cyhoeddwyd y gobeithid dathlu'r Nadolig trwy gynnal Drama'r Geni rithwir, a byddai rhagor o fanylion ar gael fel rhan o adroddiad yr Is-bwyllgor Digwyddiadau a Marchnata.

C/14/2021

YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Abbie Williams (Gwent); Delun Evans (Sir Benfro) a Mike Borley (Morgannwg).

Llongyfarchwyd Abbie ar achlysur genedigaeth ei mab ychydig ddiwrnodau cyn y cyfarfod.

C/15/2021

DATGAN BUDDIANNAU

Hysbyswyd aelodau'r Cyngor fod angen iddynt ddatgan unrhyw fuddiannau posibl oedd ganddynt mewn perthynas ag unrhyw faterion a fyddai'n cael eu trafod.

C/16/2021

COFNODION

Ar ôl anfon copi at bawb o gofnodion cyfarfod diwethaf y gweithgor Effaith ac Ymateb, a gynhaliwyd ddydd Iau 15 Hydref 2020, cadarnhawyd eu bod yn gofnod gwir a chywir.

Cynigydd: Aled Thomas, Sir Benfro

Eilydd: Katie Court, Morgannwg

C/17/2021

PWYNTIAU GWEITHREDU A MATERION YN CODI O'R COFNODION

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion blaenorol.

C/18/2021

GOHEBIAETH

Cyhoeddwyd nad oedd y sefydliad wedi derbyn unrhyw ohebiaeth at sylw'r Cyngor.

DERBYN ADRODDIADAU GAN YR IS-BWYLLGORAU:

a) Cystadlaethau – Katie Court

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:

1. Byddai Ffair Aeaf Rithwir 2020, a noddir gan Wynnstay, yn cael ei chynnal ar ddydd Llun 30 Tachwedd a dydd Mawrth 1 Rhagfyr 2020. Byddai'r manylion yr ymgeiswyr yn cael eu rhyddhau am 10.00yb bob dydd, a byddai'r canlyniadau yn cael cyhoeddi o 5.00yh ymlaen.
2. Byddai'r Eisteddfod, a noddir gan Undeb Amaethwyr Cymru, yn cael ei chynnal yn rithwir ar sawl noson (yn dibynnu ar nifer y cystadleuwyr), yn cychwyn ar 15 Chwefror 2021.
3. Cafwyd trafodaeth ynghylch Cystadlaethau Aelodau Hŷn ac Iau y Flwyddyn, a pha un ai a ddylai'r aelodau presennol barhau i ymgymryd â'r rolau hyn am flwyddyn arall. Ni wnaed unrhyw benderfyniad ffurfiol, ac anogwyd y Ffederasiynau i dafod y mater a mynegi unrhyw safbwyntiau cryf yng nghyfarfod y Cyngor.
4. Etholwyd Siân Healey o Frycheiniog yn is-gadeirydd.
5. Byddai cyfarfod nesaf yr Is-bwyllgor Cystadlaethau yn cael ei gynnal trwy gyfrwng Zoom ar 11 Ionawr 2021, am 7.30yh.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:

1. Byddai rhaglen cystadlaethau 2021 yn cael ei hadolygu ym mis Ionawr. Fodd bynnag, fe wnaeth y pwyllgor gytuno i sefydlu'r rhaglen dros dro ddilynol:
 - Siarad Cyhoeddus – Canol Mawrth 2021
 - Diwrnod Gwaith Maes – Canol Ebrill 2021
 - Diwrnod Chwaraeon – Diwedd Mehefin 2021
 - Cystadlaethau Sioe Frenhinol Cymru – Gorffennaf 2021
2. Byddai'r rhaglen yn cael ei adolygu'n rheolaidd, pa un ai a fyddai'r digwyddiadau'n cael eu cynnal yn rithwir neu wyneb yn wyneb.
3. Fe wnaeth y pwyllgor gytuno i gynnal rownd o Gystadleuaeth Doniau'r CFFI yng Nghymru, ond dylai'r Ffederasiynau mai diben hyn fydd i ymgeisio'n uniongyrchol yng nghystadleuaeth FfCCFFI, nid cystadleuaeth ddileu ar lefel Cymru.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Cafwyd trafodaethau ynghylch yr Eisteddfod rithwir y bwriedid ei chynnal yn y Flwyddyn Newydd. Cyfeiriodd Nia Lloyd at bryderon ynghylch hawlfraint, a allai olygu y byddai'n rhaid i CFFI Cymru dalu symiau sylweddol am hawlfraint mewn perthynas â darlledu a pherfformio. Awgrymwyd y dylai pwyllgor yr Eisteddfod adolygu'r darnau gosod o ran hawlfraint, ac y dylid symud dyddiad yr Eisteddfod ymlaen i fis Ebrill 2021.

Cynigodd Esyllt Ellis Jones y dylid symud yr Eisteddfod i adeg y Pasg ac fe wnaeth Elen Williams eilio'r cynnig. Pleidleisiodd aelodau'r Cyngor o blaid y cynnig hwn.

b) Cyllid a Rheoli – Kathryn Jones

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:

1. Roedd Ceri Llwyd o gwmni Ashmole & Co. yn bresennol a chafwyd adroddiad manwl ganddi ynghylch canfyddiadau'r archwiliad a gynhaliodd Ashmole & Co. ar ddiwedd bliwyddyn ariannol 2020. Cafwyd

- trafodaeth fanwl ynghylch dulliau o wella rhai o'r systemau ariannol yn y dyfodol.
2. Roedd yr Is-bwyllgor Cyllid a Rheoli yn falch o gyhoeddi fod system meddalwedd Sage bellach yn rhoi adroddiadau cywir, ac roedd yr holl wallau cyn 2018 wedi cael eu hunioni.
 3. Roedd gweithgor yr adeilad yn parhau i weithio i ddatblygu prosiect yr adeilad, ond ni fyddai unrhyw wariant yn digwydd hyd nes y byddai pethau wedi gwella o safbwynt pandemig Covid-19. Roedd yr arian o ystâd y diwedd Mr Terence Meredith yn dal ym meddiant CAFC oherwydd oedi yn sgil Covid-19, ond roedd Claire yn cysylltu'n rheolaidd ynghylch y mater oherwydd roedd y mater yn ôl yn nwylo eu cyfreithiwr.
 4. Roedd cyfrifon rheoli wedi cael eu cyflwyno fel rhan o system adroddiadau'r Is-bwyllgor Cyllid a Rheoli, a byddai hynny'n cynnwys incwm a gwariant y flwyddyn a gweddill y cyfrifon cyfredol, i gynnig darlun cywir i'r pwyllgor o sefyllfa CFFI Cymru yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol.
 5. Roedd cyfarfodydd wedi cael eu cynnal gyda chyfreithwyr a'r cyfrifwyr ynghylch sefydlu cangen fasnachol y Pentref Ieuentid. Fodd bynnag, roedd hynny wedi cael ei atal dros dro oherwydd pandemig Covid-19 a hyd nes y ceid y byddai'r Pentref Ieuentid yn cael ei gynnal.
 6. Roedd Mr Steve Hughson a Mr Malcolm Thomas wedi cael eu haillethol yn arbenigwyr y pwyllgor.
 7. Roedd cynllun ariannu'n cael ei weithredu a llwyddwyd i sicrhau'r grantiau canlynol; Cynllun Grant Cyrff Ieuentid Gwirfoddol (NVYO), Llywodraeth Cymru (Grant y Gymraeg), CCGC, Ymddiriedolaeth Elusennol NFU Mutual, Grant Covid-19 i Elusennau trwy law Cyngor Powys a Chynllun Ffyrlo'r Llywodraeth. Byddai'r cynllun yn cynnig canllawiau eglur ynghylch y grantiau y dylid ymgeisio amdanynt a pha elfennau o waith y sefydliad fyddai'n gweddu orau i bob cais.
 8. Roedd cynllun nawdd a chynllun buddion i aelodau yn cael eu datblygu a'u gweithredu.
 9. Roedd trafodaethau'n parhau â Llywodraeth Cymru ynghylch cymorth ariannol yn y dyfodol ac roedd cyfarfodydd wedi cael eu cynnal ar y cyd â Busnes Cymru.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:

1. Roedd angen adolygu'r dull o bennu'r cyllidebau, ac at y dyfodol, byddai amser staff a chostau rhedeg yr adeilad yn cael eu priodoli i bob digwyddiad. Byddai'r adroddiadau hyn hefyd yn cynnwys rhagolygon y dyfodol. Byddai CFFI Cymru yn cydweithio ag Ashmole & Co i wella'r systemau hyn oherwydd roedd ganddynt hanes o gostau 'gwirioneddol' yn y gorffennol.
2. Byddai'n rhaid i'r holl ddigwyddiadau gael eu rhedeg o fewn y gyllideb ac ni fyddid yn caniatáu i unrhyw ddigwyddiad wneud colled yn y dyfodol oni byddai rhesymau digonol i gyfiawnhau hynny ac y byddai'r costau yn cael eu cwmpasu gan danwariant digwyddiad arall (byddai'n rhaid cymeradwyo hynny yn gyntaf).

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Holodd Aled Thomas am eiriad yr ail bwynt i'w gymeradwyo, gan nodi y gallai'r sefydliad gollu llawer o'i gystadlaethau pe byddid yn penderfynu peidio rhedeg digwyddiadau os na ellid adennill eu costau. Cadarnhaodd

Kathryn y gallai tanwariant ddigwydd yn achos rhai cystadlaethau a gorwariant yn achos eraill, a byddai angen i'r holl gystadlaethau gyda'i gilydd fantoli'r cyfrifon.

Byddai angen i'r Cyngor gytuno sut y dylid gwneud iawn am golled pe bai digwyddiad yn cael ei gynnal er gwaethaf y ffaith fod colled wedi'i rhagweld.

Gofynnodd Aled am gadarnhad ynghylch ble gwneir penderfyniadau i redeg neu ganslo digwyddiad. Dywedodd Nia Lloyd mai'r Cyngor, fel corff llywodraethu'r sefydliad, fyddai'n gwneud y penderfyniad terfynol ym mhob achos.

Fe wnaeth Aled hefyd gwestiynu dyraniad y cyllid yn y cyfrifon, a fyddai'n cael ei ystyried unwaith yn rhagor gan yr Is-bwyllgor Cyllid a Rheoli.

Dywedodd Kate Miles mai'r disgwyliad oedd peidio rhedeg unrhyw ddigwyddiad ar golled, ond nid oedd holl weithgareddau'r CFFI yn cael eu hystyried yn ddeniadol o safbwynt denu cyllid a nawdd. Cytunai Kate hefyd mai'r Cyngor ddylai wneud y penderfyniad terfynol ynghylch rhedeg unrhyw ddigwyddiad ar ôl cael trosolwg llawn o'r ffigurau dan sylw.

Holodd Katie hefyd a fyddai'r hyn a fynegwyd hefyd yn berthnasol i'r Rhaglen Ryngwladol, oherwydd byddai'n rhaid priodoli llawer o amser cudd staff i'r rhaglen. Dywedodd Elen Williams hefyd nad fydd cystadlaethau yn gwneud elw yn ystod rhai blynyddoedd oherwydd eu lleoliad neu resymau eraill, ac na ddylid eu diddymu o'r rhaglen o reidrwydd oherwydd un flwyddyn wael.

Dywedodd Hefin Evans y dylai cynnal digwyddiadau mewn lleoliadau canolog helpu i reoli costau rhai digwyddiadau.

Dywedodd Dewi Parry y caiff pob digwyddiad ei gynllunio'n ofalus ac y bydd pawb yn gwneud eu gorau glas i sicrhau llwyddiant y digwyddiad. Fodd bynnag, ar brydiau, bydd costau annisgwyl na ellir eu hosgoi. Byddai awgrymu na ellir rhedeg unrhyw ddigwyddiadau ar golled yn bolisi aneffeithiol, ac ni ddylid ei fabwysiadu.

Dywedodd Carys Thomas y dylai'r Cyngor dderbyn arbenigedd Kathryn Jones ac y dylid ystyried rhedeg digwyddiadau sy'n talu eu costau o leiaf.

Cynigodd Esyllt Ellis Jones welliant i bwynt 2:

Os bydd digwyddiad yn gwneud colled, dylai'r Cyngor ailystyried y digwyddiad fel mater o drefn ac archwilio'r holl gostau, yn hytrach nag 'ysgubo'r golled dan y carped', cyn gwneud unrhyw benderfyniadau am ddyfodol y digwyddiad neu'r gweithgaredd. Dywedodd Dewi fod hyn eisoes yn digwydd fel mater o drefn. Fe wnaeth Niall Evans eilio cynnig Esyllt, a derbyniodd y Cyngor y cynnig.

Dywedodd Cadeirydd y Cyngor y byddai unrhyw ymgynghoriadau agored gan Lywodraeth Cymru yn cael eu hystyried gan y Cyngor o hynny ymlaen.

c) Digwyddiadau a Marchnata – Aled Thomas

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:

Byddai cyfarfod nesaf yr is-bwyllgor yn cael ei gynnal ar 1 Rhagfyr, a byddai adroddiad ffurfiol yn cael ei gyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Holodd Carys Thomas a oedd unrhyw gytundebau wedi cael eu llofnodi cyn i'r Pentref Ieuenctid gael ei ganslo. Dywedodd Katie Davies nad oedd unrhyw gytundebau wedi cael eu llofnodi cyn i ddigwyddiad 2020 gael ei ganslo.

Disgrifiodd Katie Davies fanylion y Ddrama'r Geni rithwir a fyddai'n cael ei chynhyrchu yn y cyfnod cyn y Nadolig. Byddai'r holl siroedd yn cyfranogi, a byddai'r drefn yn cael ei chytuno o dan unrhyw faterion eraill.

d) Rhyngwladol – Niall Evans

Llongyfarchwyd Niall Evans am gael ei ethol yn is-gadeirydd Rural Youth Europe a llongyfarchwyd Elen Williams am gael ei hethol yn gynrychiolydd Grŵp 1. Bwriedid cynnal cfarfod o swyddogion y 5 gwlad yn y dyfodol agos.

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:

1. Cyhoeddwyd manylion Rhaglen Ryngwladol 2021 ddydd Mawrth 10 Tachwedd 2020.
2. Byddai Diwrnod Dethol y Rhaglen Ryngwladol yn cael ei gynnal ddydd Sul 13 Rhagfyr trwy gyfrwng Zoom.
3. Byddai ceisiadau'n cael eu cyflwyno ar-lein yn unig, a byddai angen eu cwblhau trwy gyfrwng y ddolen ar wefan CFFI Cymru erbyn 9.00yb, ddydd Llun 7 Rhagfyr.
4. Fe wnaeth y pwyllgor ystyried ychydig o wahanol deithiau ar gyfer grwpiau yn 2021, a chymeradwywyd 'o LA i'r Bae' a saffari yn Affrica i'w cynnwys yn y rhestr fer. Cytunwyd rhoi cyfle i'r aelodaeth ehangach bleidleisio mewn pŵl piniwn. Fe wnaeth saffari yn Affrica ennill y bleidlais, ac chynhwyswyd hynny yn rhaglen 2021.
5. Anogid aelodau i anfon lluniau o'u teithiau at Teleri ar gyfer 'Throwback Thursday', i hyrwyddo'r cyfleoedd a fyddai ar gael yn 2021.
6. Roedd y pwyllgor yn ystyried datblygu fforwm cyfnewid clybiau ar gyfer gweithgareddau cyfnewid clybiau yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
7. Fe wnaeth Cynulliad Cyffredinol Rural Youth Europe gymeradwyo cais CFFI Cymru i gynnal Seminar yr Hydref yn 2022 ar ôl i ddigwyddiad 2020 gael ei ohirio hyd at 2021.
8. Llongyfarchwyd Elen Williams, Ffederasiwn Morgannwg, am gael ei hethol yn aelod newydd o'r Bwrdd dros y Deyrnas Unedig ac Iwerddon yng nghyfarfod diweddar y Cynlluniad Cyffredinol.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:

1. Byddai enwau'r teithwyr llwyddiannus yn cael eu cyhoeddi ddydd Llun 14 Rhagfyr, trwy gyfrwng cyfryngau cymdeithasol a gwefan CFFI Cymru.
2. Roedd y pwyllgor wedi bod yn ceisio cyfleoedd newydd a byddai'n cynnig taith sgïo i Awstria yn Ionawr 2022. Byddai'r daith yn cael ei hysbysu yn y Rhaglen Ryngwladol, ond ni fyddai'n daith gystadleuol. Roedd wedi cael ei hysbysebu yn rhaglen 2021, a byddai manylion llawn ar gael yn ddiweddarach.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Ni chafwyd unrhyw drafodaethau ychwanegol.

e) Materion Gwledig – Clare James

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:

1. Roedd y pwyllgor wedi ymateb i Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru – Ffermio Cynaliadwy a'n Tir: Symleiddio Cymorth Amaethyddol. Fe wnaeth yr aelodau annog Llywodraeth Cymru yn gryf i ystyried yr angen i sicrhau fod cymorth ar gael i ffermwyr ifanc ac i annog y diwydiant i ffynnu. Diolchwyd i'r NFU am eu cymorth.
2. Lanswyd rhaglen Agri Eye fel rhan o'r Rhaglen Teithiau Rhyngwladol, ddydd Iau 11 Tachwedd 2020. Fe wnaeth yr Is-bwyllgor Materion Gwledig gyfraniadau sylweddol at lansiad y rhaglen.
3. Cynhaliwyd cyfweiliadau'r Fwrsariaeth Amaethyddiaeth ddydd Iau 5 Tachwedd 2020. Cyfwelwyd pob un o'r 10 ymgeisydd. Aelodau panel y cyfweiliadau oedd Mr Bryan Marsh a Mr Andrew Richards yn cynrychioli Urdd Lifrau Cymru, Miss Katie Davies, Cadeirydd CFFI Cymru, a Miss Clare James, Cadeirydd yr Is-bwyllgor Materion Gwledig. Byddai enw'r enillydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod y Ffair Aeaf rithwir.
4. Lanswyd cystadleuaeth Beiciau Cwad Cymru ddydd Mercher 4 Tachwedd 2020. Dydd Mawrth 24 Tachwedd 2020 oedd dyddiad cau cyflwyno'r fideos. Byddai'r holiaduron Iechyd a Diogelwch yn cael eu cwblhau ddydd Llun 30 Tachwedd rhwng 9yb a 6yh.
5. Byddai rowndiau terfynol Menter Moch Cymru a chystadleuaeth Pesi Moch CFFI Cymru yn cael eu cynnal yn ystod y Ffair Aeaf Rithwir.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:

1. Dymunai'r is-bwyllgor gael eu cynrychioli yn Nigwyddiad Defaid NSA Cymru a fyddai'n cael ei gynnal ddydd Mawrth 18 Mai 2021 yn Fferm Red House, Aberhafesp, y Drenewydd, Powys.
2. Cynigodd yr is-bwyllgor y dylai Cynhadledd Materion Gwledig 2021 gael ei chynnal yn rhithwir yn ystod yr wythnos yn cychwyn 11 Ionawr 2021. Byddid yn gofyn i'r siaradwyr lunio fideo, a fyddai'n cael ei rannu yn yr holl gyfryngau cymdeithasol i'w wyllo ar adeg a fyddai'n hwylus i holl randdeiliaid y CFFI. Ysbrydoliaeth fyddai thema'r gynhadledd. Byddai'r gynhadledd yn cael ei chynnal dros 3 noson, a gallai sesiynau holi ac ateb gael eu cynnal, yn dibynnu ar argaeledd y siaradwyr.
3. Dymunai'r is-bwyllgor gynhyrchu fideo Materion Gwledig i hyrwyddo'r gwaith a wneir gan yr Is-bwyllgor Materion Gwledig. Byddai'r fideo yn cael ei rannu ar gyfryngau cymdeithasol ac ar wefan CFFI Cymru.
4. Dymunai'r pwyllgor gael cymeradwyaeth i ddiweddarau'r Cyloch Gorchwyl i gynnwys y llinell 'nodi'. Roedd y pwyllgor yn awyddus i gydweithio ag amrywiaeth o grwpiau llobio, ond pwysleisiwyd na ddylid hyrwyddo unrhyw grŵp yn uniongyrchol na rhoi'r argraff fod unrhyw grŵp yn cael ffafriaeth.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Gofynnodd Kate Miles a fyddai'r fideo yn cael ei gynhyrchu'n broffesiynol neu beidio, ac a fyddai angen cyllideb.

Dywedodd Clare y byddai'r fideo yn cael ei gynhyrchu'n fewnol, i arbed costau.

f) Fforwm Ieuenctid – Elin Rattray

Gofynnwyd i'r Cyngor nodi'r canlynol:

1. Ym mis Hydref, cynhaliodd y Fforwm noson o hwyl yng nghwmni Caryl Haf a Katie Davies.
2. Ym mis Tachwedd, cynhaliodd y Fforwm noson yng nghwmni Gruffudd Roberts, Llaeth y Llan, a Kathryn Jones, Bwydydd Castell Howell.
3. Ar ddydd Mawrth 8 Rhagfyr 2020, byddai'r Fforwm yn cynnal noson â thema Nadoligaidd.
4. Roedd yr Her Hwyllo ar gyfer aelodau o dan 18 oed yn cael ei hysbysebu ar y pryd yn y rhaglen ryngwladol.

Gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r canlynol:

Nid oedd unrhyw bwyntiau i'r Cyngor eu cymeradwyo.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Ni chafwyd unrhyw drafodaethau ychwanegol.

g) Gweithgor yr Adeilad – Dafydd Jones

Cyhoeddwyd mai ychydig iawn o waith oedd wedi'i wneud i'r adeilad, yn sgil y cyfyngiadau oedd yn eu lle. Fodd bynnag, byddai cyfarfod o'r gweithgor yn cael ei gynnal ym mis Rhagfyr, a byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno ynghylch gwaith y gweithgor yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Ni chafwyd unrhyw drafodaethau ychwanegol.

h) Personél a Thâl – Caryl Haf

Rhoddodd Caryl Haf ddiweddariad i'r Cyngor ynghylch strwythur staffio CFFI Cymru ar y pryd.

Croesawyd Teleri Thomas a Catrin James, aelodau staff newydd CFFI Cymru, a diolchwyd i'r holl staff am eu gwaith caled yn ystod y misoedd blaenorol.

Trafodaethau a chytundeb y Cyngor:

Ni chafwyd unrhyw drafodaethau ychwanegol.

Wrth gloi'r adroddiadau, diolchodd Katie Davies i'r holl gynrychiolwyr am eu gwaith caled ar ran y mudiad. Cafodd yr adroddiadau eu cymeradwyo gan aelodau'r Cyngor oedd yn bresennol.

Cynigydd: Niall Evans, Cadeirydd yr Is-bwyllgor Rhyngwladol

Eilydd: Esyllt Ellis Jones, Ceredigion

C/20/2021

CYMERADWYO'R AMSERLEN ADOLYGU POLISIŶAU

Yn dilyn sefydlu pwyllgor adolygu polisiau, fe wnaeth y Cyngor gymeradwyo amserlen i adolygu pob polisi.

Cyhoeddwyd y byddai'r grŵp yn cynnwys swyddogion ac is-lywyddion CFFI Cymru, a byddai'r Cyngor yn cael crynodeb o'r holl adolygiadau cyn gofyn i aelodau'r Cyngor gymeradwyo'r polisiau.

C/21/2021

FfCCFFI

a) Diweddariad gan Gynrychiolwyr FfCCFFI
Cyfeiriodd Dewi Parry, Cadeirydd FfCCFFI, at y gwaith helaeth yr oedd FfCCFFI wedi'i wneud yn ystod misoedd blaenorol mewn ymateb i Covid-19.

Yn ystod yr wythnos flaenorol, cyhoeddwyd Gwobrau'r CFFI i gynorthwyo i roi hwb i hwyliau pawb yn y sefydliad.

Roedd dau aelod newydd o staff wedi'u penodi yn Swyddogion Cynorthwyo Ffederasiynau Sirol ac wedi cychwyn gweithio i FfCCFFI. Roedd Cath Sykes wedi gadael ei swydd yn y sefydliad, a byddai aelod newydd o staff yn dod yn gyfrifol am ddiogelu yn y Flwyddyn Newydd.

Diolchwyd i'r holl aelodau oedd wedi mynychu cyfarfod y Cyngor ac fe wnaeth Dewi gydnabod fod yr holl ffederasiynau yn wynebu cyfnod heriol. Llongyfarchwyd i Ffederasiynau Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro am lwyddo i recriwtio nifer sylweddol o aelodau yn ystod y cyfnod anodd hwn.

Cyhoeddwyd y byddai etholiadau i ddewis swyddogion yn cael eu cynnal yn Chwefror 2021, a gofynnwyd am enwebiadau i ddewis is-gadeirydd. Ychwanegwyd y byddai Laura Elliott yn ymddiswyddo o'r Bwrdd Rheoli, a byddai hynny'n cynnig cyfle i unrhyw un oedd â diddordeb mewn ymgymryd â'r rôl.

b) Ethol cynrychiolwyr ar bwyllgorau FfCCFFI
Cytunwyd i ohirio'r pwynt hwn hyd at gyfarfod nesaf y Cyngor.

C/22/2021

AELODAETH

Cafodd aelodau'r Cyngor fanylion yr aelodaeth ar y pryd, ac yn ôl y disgwyl, roedd y nifer yn llawer llai oherwydd y cyfyngiadau oedd yn eu lle yn sgil Covid-19.

Dywedodd Sam Kurtz o Sir Benfro fod y ffederasiwn wedi llwyddo i ddod yn ail yn y tabl aelodaeth trwy gynnal gweithgareddau wyneb yn wyneb oedd yn ddiogel o safbwynt Covid-19. Anogwyd y Ffederasiynau i gysylltu â Ffederasiwn Sir Benfro i gael syniadau am weithgareddau yr oeddent wedi gallu eu cynnal yn llwyddiannus.

C/23/2021

EITEMAU'R AGENDA A DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYNGOR A'R IS-BWYLLGORAU

Anfonwyd amserlen ddrafft yn cynnwys manylion dyddiadau cyfarfodydd at yr aelodau, a chymeradwyd yr amserlen.

Cyhoeddwyd y byddai cyfarfod ychwanegol o'r Is-bwyllgor Cystadlaethau yn cael ei gynnal cyn y Nadolig.

Cynigodd Hefin Evans y dylid cychwyn cyfarfod y Cyngor am 7.00yh yn hytrach na 6.30yh, ac fe wnaeth yr holl aelodau oedd yn bresennol gymeradwyo hynny.

C/25/2021

UNRHYW FATERION ERAILL

Y Ffair Aeaf

Mynegodd John James ei bryder fod un o aelodau Ffederasiwn Maesyfed wedi methu cystadlu yng nghystadlaethau'r Ffair Aeaf rithwir a gynhaliwyd y penwythnos blaenorol oherwydd gwall gweinyddol, ac nid bai yr aelod oedd hynny. Yn ystod y cyfnod hwn, ni ddylid llesteirio aelodau sy'n dymuno cystadlu, a dywedodd Katie Court y byddai'r mater yn cael ei drafod yn fanylach yng nghyfarfod nesaf yr is-bwyllgor.

Cystadleuaeth Aelod y Flwyddyn

Cafwyd cynnig gan Esyllt Ellis Jones y dylai aelodau iau a hŷn y flwyddyn gael dewis parhau â'r gwaith am flwyddyn arall, yn union fel holl swyddogion eraill CFFI Cymru. Eu penderfyniad hwy fyddai peidio parhau os mai dyna fyddai eu dymuniad, ond dylid rhoi'r dewis iddynt.

Roedd John James o Ffederasiwn Maesyfed yn anghytuno â'r cynnig, ac er ei fod yn cydnabod fod y ffaith nad oedd yr aelodau hynny wedi cael blwyddyn lawn yn siomedig iddynt, dywedodd y dylai'r sefydliad edrych ymlaen a pheidio atal aelodau oedd yn dymuno sefyll y flwyddyn hon. Roedd Elen Williams o Ffederasiwn Morgannwg yn cytuno â safbwynt John James, a dywedodd y gallai aelodau'r flwyddyn hon sefyll unwaith eto pe baent yn dymuno.

Cyhoeddwyd fod Ffederasiwn Gwent eisoes wedi cynnal eu cystadleuaeth, ond ychwanegwyd y byddai enillwyr y flwyddyn flaenorol yn gallu sefyll eto pe byddent yn dymuno.

Ar yr adeg hon, fe wnaeth Elin Rattray, aelod iau y flwyddyn ar y pryd, adael y cyfarfod hyd nes byddai'r drafodaeth wedi dod i ben.

Dywedodd Dewi Parry y dylai hyn fod yn fater i'r Ffederasiynau Sirol, nid CFFI Cymru.

Awgrymodd Kate Miles y posibilrwydd o gynnig cyfle i'r ddau aelod presennol barhau i fod yn swyddogion gan ymgymryd â rôl llysgennad, ond y dylai'r gystadleuaeth gael ei chynnal y flwyddyn hon. Fe wnaeth Kate gynnig hyn ac fe wnaeth Elen Williams eilio'r cynnig.

Cafwyd gwrthgynnig gan John James, yn nodi y dylai'r gystadleuaeth gael ei chynnal yn ôl yr arfer ac y dylai aelodau'r flwyddyn ar y pryd roi'r gorau i'w rôl.

Yn dilyn pleidlais, cytunwyd y dylid rhedeg y gystadleuaeth yn ôl yr arfer yn 2020/2021, ac y dylid cynnig cyfle i aelodau iau a hŷn y flwyddyn barhau i fod yn llysgenhadon ar ran CFFI Cymru yn ystod y deuddeg mis dilynol.

Trefn Drama'r Geni

Ar ôl tynnu enwau o het i benderfynu trefn y Ddrama'r Geni rithwir, hysbyswyd aelodau'r Cyngor mai dyma fyddai trefn y cyfranogi:

1 ^{af}	Eryri
2 ^{il}	Clwyd
3 ^{ydd}	Ceredigion
4 ^{ydd}	Morgannwg

5 ^{ed}	Gwent
6 ^{ed}	Maesyfed
7 ^{fed}	Ynys Môn
8 ^{fed}	Meirionnydd
9 ^{fed}	Sir Gaerfyrddin
10 ^{fed}	Maldwyn
11 ^{eg}	Sir Benfro
12 ^{fed}	Brycheiniog
Noswyl Nadolig	Swyddogion a staff CFFI Cymru.

Ffederasiwn CFFI Sir Gaerfyrddin

Holodd Hefin Evans a oedd y llythyr yr oedd Ffederasiwn Sir Gaerfyrddin wedi'i anfon at CFFI Cymru wedi cael ei ddarllen fel rhan o'r ohebiaeth. Dywedodd Katie Davies fod yr ohebiaeth wedi cael sylw gan y gweithgor Effaith ac Ymateb, a bod cofnodion y cyfarfod hwnnw wedi cael eu huwchlwytho i'r wefan er gwybodaeth ac fel y gellid cyfeirio atynt.

Effaith ac Ymateb

Diolchodd Dewi Davies i'r aelodau oedd wedi cynrychioli CFFI Cymru yng nghyfarfodydd y Gweithgor Effaith ac Ymateb yn ystod y misoedd blaenorol am eu gwaith a'r amser yr oeddent wedi'i neilltuo i waith y pwyllgor ar ran y Ffederasiwn.

Y Ffair Aeaf

Dywedodd Katie Davies y byddai'r Ffair Aeaf rithwir yn cael ei chynnal ar ddechrau'r wythnos ddilynol, a dymunwyd bob llwyddiant i bawb a fyddai'n cyfranogi yn y cystadlaethau.

Polisiâu

Oherwydd y sefyllfa oedd yn mynd rhagddi, awgrymodd Rhodri Evans y dylai'r polisi gweithio'n unigol symud i fyny'r rhestr flaenoriaethol o bolisiâu i'w hadolygu. Cytunwyd y byddai'r gweithgor newydd yn ystyried hyn.

Y Cyngerdd Mawreddog

Hysbyswyd yr aelodau y byddai Cyngerdd Mawreddog CFFI Cymru yn cael ei ailddarlledu ar S4C y penwythnos hwnnw.

Wrth ddirwyn y cyfarfod i ben, diolchwyd i aelodau'r pwyllgor am eu cyfraniadau, ac ychwanegwyd y byddai'r cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal ym mis Ionawr.

Gan ddymuno Nadolig Llawen i'r holl aelodau, cyhoeddodd y cadeirydd fod y cyfarfod ar ben am 8.20yh.

Llofnod: _____ **Dyddiad:** _____